CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**02.10.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*

## *Hwb LlanNi*

## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** EY (Cadeirydd) RJ; AR; TAJ; JAJ; EO; DAW;GW;IW;RY<br>**Ymddiheuriadau:** DP;LLMH; JOJ<br>**Mynychu:** Cyng Ken Hughes; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau uchod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd TAJ ddiddordeb yn Eitem 8 Materion Safleoedd – cais gan CPD Ieuenctid LLan. |
| 3 | **Cofnodion 04.09.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 04.09.25 fel rhai cywir yn unol â nodi bod costau trwsio cyfarpar Glan Menai yn dod o goffrau Ysgol Haearn - Clerc yn cadarnhau derbyn siec am y swm. (TAJ/AR)<br><br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion Is-bwyllgor Safleoedd 18.9.25 (EO/GW)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Rhandiroedd** – adroddwyd ar gofnodion ac argymhellion Is-bwyllgor Safleoedd. Nodwyd bod 9 tenant cyfredol gyda 4 wedi talu y ffioedd yn llawn a chadw eu safle yn daclus. Cytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr cychwynnol at yr holl denantiaid i'w hysbysu bod CC Llan bellach yn rheoli'r Rhandiroedd ac yn adolygu'r termau llogi |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Materion Priffyrdd –** cytunwyd i ychwanegu'r canlynol at y Cynllun Gweithredu-<br>• Gosod 30 mya ar y ffordd a gosod arwyddion 'chevron' du a gwyn ar y troadau<br>• Holi am groesfan ger Siop Spar Fali – creu tebyg wrth y siop newydd yn Llan<br><br>**Cloc y Pentref** – angen gosod canopi uwchben i amddiffyn y Cloc rhag y tywydd.. GW i weithredu. Clerc i holi Eglwys yng Nghymru am ddiweddariad<br><br>**Diffibrilyddion -** Clerc wedi cysylltu â swyddog perthnasol Tomos Hughes sawl gwaith – disgwyl dyddiad ac amser heno.<br><br>**Trwsio pellach wal Maes parcio Jeriwsalem –** Clerc i holi M Grieves am drwsio wal y fynwent a twll ym maes Parcio Stesion.<br><br>**Hyfforddiant Cod Ymddygiad -** Clerc i drefnu hyfforddiant ar gyfer pob aelod – ZOOM yn yr Hwb.<br><br>**Cynghrair Talybolion –** disgwyl dyfariad ar y cais o £3K tuag at golau rhybudd gyrru ar ffordd i mewn i Llan o Amlwch.<br><br>**Cytuneb Amddiffyn Tan –** prisiau i gyfarfod mis Tachwedd<br><br>**Arian Balchder Bro –** dim arian yn weddill<br><br>**Glan Menai –** Clerc i holi Coed y Glyn am ddiweddariad<br><br>**Cynwysyddion Carmel –** KH yn nodi bod y mater yn nwylo cyfreithwyr CSYM – KH i holi am ddiweddariad.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 02.10.25 |
| **4** | **Materion trwy'r Gadair**<br><br>**Llifolau Cae Astro –** trafodwyd trwsio'r bocs. Cytunwyd i TAJ/GW drwshio gyda paneli sinc o eiddo TAJ. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 04.09.25**<br><br>• Cyflog Clerc – Medi = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM X 2<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £22.12<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £16.06<br>• Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £15.59 |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • Nwy Prydain trydan Uned 2 £14.21<br>• Nwy Prydain trydan CPD £63.89<br>• RPO Williams – darparu ar gyfer cyflenwad trydan i'r Cloc.£2154.00<br>• PWLB – ad-dalu benthyciad – taliad 6 mis £1483.70<br>• CPD – taliad i Portapach Engineering – 'spiked roller' £790 (ad-daliad o £658.34 gan CPD)<br>• Dwr Cymru – taliad 6 mis dwr i'r Fynwent Gyhoeddus £20.97<br><br>**Biliau cyfredol**<br>Dim i law.<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £4780.57<br>**Cyfrif Cadw:** £40573.30 (oddeutu £20K i Hwb LlanNi)<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** cyfrifon yn nwylo Archwilio Cymru o fewn y terfyn amser, disgwyl dyfarniad. |
| **6** | **Materion Cynllunio** - dim i law |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** cyfeiriodd KH at<br>• CSYM yn datblygu Cynllun Trafnidiaeth a nododd ei bryder bod diffyg cyfeirio at drafnidaeth cefn gwald.<br>• Cynllun Datblygu Strategol heb ei gwblhau eto<br>• Pwyllgor Gwaith yn mynd ymlaen gyda – Adolygiad Barnwrol ar gyfer fferm solar arfaethedig Alaw Mon a gweithredu newid canllawiau 20 mya mewn rhai ardaloedd ar yr Ynys. |
| **8** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** dim diweddariad gan CSYM ar y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd. Asiant yn dal i holi.<br><br>**Safle'r Stesion** – twll yn y Maes Parcio – Clerc i ofyn i Meirion Grieves ymchwilio.<br><br>**Lawnt Fowlio –**. Nodwyd bod Clwb Benllech wedi clirio a thwtio o gwmpas y lawnt. Cytunwyd i edrych os fyddai CCTV 'hen' y Caffi yn gallu gael ei osod yn y Clwb er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth gymdeithasol. DAW/GW/JAJ i ymchwilio. JAJ/Clerc i gwrdd Clwb Bowlio Benllech pan fyddant yno i drafod cydweithio pellach posib. Trafodwyd yr hysbys drafft. Clerc; DAW ac EO i lunio hysbys a'i roi ar y gwefannau.<br><br>**Clwb Peldroed –** cais gan Cai ab Arfon am gymorth i gyflwyno cais cynllunio i greu maes parcio ger cae Ieuenctid. Cytunwyd i'r Clerc weithredu gyda chymorth Cai i gael y dogfennau perthnasol. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Mynwentydd** – trafodwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Safleoedd, Cytunwyd i'r aelodau ystyried - codi ffioedd; dim gwerthu o flaen llaw; ffi uwch i rai sydd heb gyswllt a'r ardal a thrafod ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.<br><br>**Cae Gofeb –** Trefniadau Sul y Cofio – adroddwyd bod popeth mewn llaw Cytunwyd i gynnal panad yn yr Hwb os na fydd Tegwen ar gael.<br><br>**Rhandiroedd** – trafodwyd eisoes. |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br><br>Ebost o Carmel - trafodwyd cynnwys ebost gan aelod o gymuned Carmel. Roedd yn holi am gofnodon yn Saesneg ac am sefyllfa cyflenwad dwr yng Ngharmel. Cytunwyd i'r Clerc ymateb trwy egluro trefn ein cyfarfodydd a'r gallu i gael cofnodion yn Saesneg ar gais. Clerc i holi Unllais am ddilysrwydd ein Polisi Iaith. Cytunwyd hefyd i holi am ddiweddariad gan Dwr Cymru er mwyn gallu ymateb ymhellach i'r ymholiad.<br><br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd eisoes trwy ebost ers cyfarfod mis Medi. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383